**WHC/2022/028**

**CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU**

**Dyddiad Cyhoeddi: 10 Tachwedd 2022**

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: Y GWEITHLU**

| |
|---|
| **Teitl:** |
| Cwrs hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith *Mwy na geiriau* |

| **Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad:** Amherthnasol | | |
|---|---|---|
| **I'w weithredu gan:** Ysgrifenyddion y Byrddau ABMU Aneurin Bevan Betsi Cadwaladr Caerdydd a'r Fro Cwm Taf Hywel Dda Powys Iechyd Cyhoeddus Cymru Ymddiriedolaeth Felindre Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Ysgrifennydd Grŵp Ysgrifenyddion y Byrddau Prif Weithredwyr ABMU Aneurin Bevan Betsi Cadwaladr Caerdydd a'r Fro (a Rheolwr Busnes) Cwm Taf Hywel Dda Powys Iechyd Cyhoeddus Cymru Ymddiriedolaeth Felindre Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlands Cymru Cadeiryddion ABMU Aneurin Bevan Betsi Cadwaladr Caerdydd a'r Fro Cwm Taf Hywel Dda Powys Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru DG/Prif Weithredwr GIG Cymru Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru Tim Gweithrediadau | | **Angen gweithredu erbyn:** Yn syth |

| | | |
|---|---|---|
| GIGC Tim Cyfathrebu GIGC Cyfarwyddwyr Perthnasol RHESTR DDOSBARTHU Atodlen 2 CYLCHLYTHYRAU IECHYD CYMRU Swyddfa Archwilio Cymru Swyddog Technegol Llywodraeth Ganolog a sector y GIG De Cymru Cyfarwyddwr Rhwydwaith Cancr De Cymru Cyfarwyddwr Meddygol WHSSC Mrs Karen Howell, Rheolwr Gyfarwyddwr Miss Pam Wenger, Ysgrifennydd Pwyllgor EASC Mr Stephen Harrhy, Comisiynydd Dros Dro y Gwasanaethau Ambiwlans yr Athro McClelland, Cadeirydd Miss Pam Wenger, Ysgrifennydd Pwyllgor Ymddiriedolaeth GIG Felindre Cally Hamblyn, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethiant Cydweithrediad Iechyd Cymru Gyfan GIG Cymru Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru Jacqui Maunder, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr Jennifer Roe, NWSSP - SES - Blwch post generig Rheoli Busnes : whssc.generalenquires@wales.n <mailto:whssc.generalenquires@wales.n> Cyfarwyddwyr y Gweithlu ac OD y byrddau iechyd / ymddiriedolaethau swyddogion iaith Gymraeg y byrddau iechyd / ymddiriedolaethau | | |

**Anfonwr:**
Judith Paget CBE Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

**Enw Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**
Dyfed Rowlands, Uned Polisi'r Gymraeg, GIGC – Swyddfa'r Cyfarwyddwr, 03000 255712

**Amgaeedig:** Dim

Annwyl Gydweithwyr

Mae cyfathrebu gydag unigolion yn rhan allweddol o ddarparu gofal da. Mae'n helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd iddyn nhw ac o'u cwmpas, ac yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel ac yn fodlon. Yn ddiweddar fe lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [*Mwy na geiriau*]() – ein cynllun i gryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth graidd y cynllun mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol sy'n gosod cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach nag ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth i orfod gofyn amdanynt.


Mae sgiliau Cymraeg y gweithlu yn allweddol i alluogi staff i ymwneud yn effeithiol â siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau llwyddiant *Mwy na Geiriau*. Y gobaith yw y bydd cydweithwyr am ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau presennol. Ond nid yw hynny'n golygu bod angen i bawb fod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae gallu dweud ychydig eiriau yn Gymraeg yn gallu mynd yn bell a hyd yn oed os nad yw staff yn siarad Cymraeg mae deall anghenion siaradwyr Cymraeg yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.

Un o'r camau gweithredu yn *Mwy na geiriau* yw bod holl gydweithwyr y GIG a gofal cymdeithasol yn gwneud cwrs ymwybyddiaeth iaith a fydd yn egluro pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac i anghenion cleifion. Ni ddylai'r cwrs gymryd mwy na 30 munud i'w gwblhau ac mae'n cynnwys cefndir / cyd-destun am y Gymraeg, pwysigrwydd y Gymraeg i brofiad y claf a hefyd adran ar safonau'r Gymraeg.

Gellir cael mynediad i'r cwrs drwy'r Cofnod Staff Electronig (ESR) a'r platfform Learning@Wales. Mae'n orfodol i holl staff y GIG (gan gynnwys y rheini nad ydynt yn delio'n uniongyrchol gyda chleifion / defnyddwyr gwasanaeth) a bydd angen ei wneud eto bob 3 blynedd. Dylid ei gyflwyno fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer gweithwyr newydd nad ydynt eto wedi'i gwblhau. Bydd cyfraddau cwblhau yn cael eu casglu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG gyda'r data yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cynghori fydd yn cael ei sefydlu gan y Gweinidog i gadw golwg ar weithredu *Mwy na geiriau*. Er mwyn cydnabod y pwysau presennol a'r angen i ganolbwyntio ar gyflawni ni fyddwn yn dechrau adrodd tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf a'r dyddiad cwblhau fydd Mehefin 2023.

Gwn y bydd staff y GIG yn mynd i'r afael â'r her o weithredu'r camau yn y cynllun *Mwy na geiriau newydd* a bydd cwblhau'r cwrs gorfodol hwn yn helpu i sicrhau fod pawb yn deall pam ei bod hi'n bwysig i'n cleifion a'n defnyddwyr gwasanaeth allu derbyn gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd uchel yng Nghymru.

Yn gywir




**Judith Paget CBE**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru**